*Mae'r canllawiau hyn ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial wrth recriwtio wedi'u datblygu'n ganolog gan Lywodraeth y DU ac fe'u cynhelir ar wefan Gyrfaoedd y Gwasanaeth Sifil. Y bwriad yw darparu gwybodaeth gyson a thryloyw i'r holl ymgeiswyr a rheolwyr llogi ar draws y Gwasanaeth Sifil.

Fel rhan o'n hymrwymiad i Safonau'r Gymraeg, rydyn ni wedi cyfieithu'r canllawiau hyn i'r Gymraeg. Fodd bynnag, gan fod y cynnwys gwreiddiol yn cael ei gynnal gan Swyddfa'r Cabinet, mae'n bosib y caiff ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd. Byddwn yn ceisio adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y fersiwn Gymraeg cyn gynted â phosibl. Mae gwefan Gyrfaoedd y Gwasanaeth Sifil hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol a allai fod o gymorth i gefnogi'ch cais.*

# Canllaw ymgeiswyr i Ddeallusrwydd Artiffisial ym maes recriwtio

## Deallusrwydd Artiffisial a recriwtio

Mae meddalwedd Deallusrwydd Artiffisial fel ChatGPT, Claude, Copilot a Gemini yn adnoddau pwerus sy'n gallu creu ac adolygu testun mewn ffyrdd sy'n dynwared yr hyn y gall pobl ei wneud.

Gall yr adnoddau hyn eich helpu i wella'ch cais a pharatoi ar gyfer y broses, ond mae'n hanfodol eich bod chi'n eu defnyddio'n briodol. Ni ddylid eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth gamarweiniol neu ffug ar unrhyw gam o'r daith ymgeisio.

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ddefnydd derbyniol ac annerbyniol o Ddeallusrwydd Artiffisial yn y broses ymgeisio. Mae hefyd yn awgrymu ffyrdd i'w defnyddio a allai fod o gymorth i chi.

- Yr hyn rydyn ni'n chwilio amdano mewn ceisiadau
- Ysgrifennu'ch cais
- Paratoi ar gyfer eich cyfweliad
- Pam mae dilysrwydd yn bwysig

## Yr hyn rydyn ni'n chwilio amdano mewn ceisiadau

Y peth pwysicaf i'w gofio yw ein bod ni am ddysgu mwy amdanoch chi a sut rydych chi'n cyd-fynd â'r Gwasanaeth Sifil. Dylai'ch cais gynrychioli'ch sgiliau a'ch profiadau personol yn gywir ac yn ddilys. Mae ceisiadau da yn ein helpu i ddeall:

- sut mae’ch sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r rôl neu'r cynllun rydych chi'n gwneud cais amdano
- yr hyn sy'n eich ysgogi i wneud eich gwaith gorau
- beth rydych chi wedi'i gyflawni a sut hwyl gawsoch chi

Dwy brif ran y broses yw’r cam cais ysgrifenedig a’r cam cyfweliad. Gallai Deallusrwydd Artiffisial eich helpu gyda rhai agweddau ymhob cam.

Nod defnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn eich cais am swydd yw’ch helpu i ddangos i ni pwy ydych chi a beth rydych chi'n ei wneud yn dda. Nid creu persona sydd ddim yn chi yw’r nod.

# Ysgrifennu’ch cais

## Defnydd derbyniol

Gallwch ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn y broses ymgeisio i wneud y canlynol:

- eich helpu i fireinio ac egluro’ch syniadau a'ch meddyliau
- ymchwilio i wybodaeth gyhoeddus am y Gwasanaeth Sifil a'r sefydliad rydych chi'n gwneud cais iddo
- dod o hyd i wybodaeth am dueddiadau mewn diwydiannau neu broffesiynau y gallwch gysylltu â phrofiadau personol
- gwirio sillafu, gramadeg ac eglurder yr hyn rydych chi wedi'i ysgrifennu

## Defnydd annerbyniol

Peidiwch â defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i wneud y canlynol:

- gorliwio eich sgiliau a'ch profiadau neu greu rhai nad oes gennych chi
- creu ymatebion cyffredinol a chopïo'r rhain i'ch cais
- cwblhau asesiadau sy'n gwerthuso personoliaeth a galluoedd megis eich barn mewn sefyllfa benodol a phrofion rhifiadol
- darparu gwybodaeth sensitif am eich sefydliad, megis unigolion neu fanylion personol, i adnodd Deallusrwydd Artiffisial

Mae sawl ffordd y gall Deallusrwydd Artiffisial wella eglurder ac ansawdd eich cais ysgrifenedig a pharhau i fod yn adlewyrchiad gonest o'ch sgiliau a'ch profiad. Dyma enghreifftiau o ddefnydd effeithiol:

- meddyliwch am eich profiadau arwain personol eich hun a gofynnwch i Ddeallusrwydd Artiffisial eich helpu i wella sut rydych chi'n eu cyflwyno
- gofynnwch i Ddeallusrwydd Artiffisial grynhoi gwybodaeth gyhoeddus am brosiectau neu bolisïau pwysig, yn y sefydliad rydych chi'n gwneud cais iddo, y gallwch eu hystyried yn eich ymatebion
- gofynnwch i Ddeallusrwydd Artiffisial eich helpu i nodi sgiliau perthnasol ac ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil yn yr hysbyseb swydd ac yna meddyliwch am sut rydych chi wedi dangos y sgiliau hyn mewn rolau blaenorol wrth i chi baratoi eich ymatebion
- ysgrifennwch restr o enghreifftiau gyda manylion sut rydych chi'n cysylltu’ch profiad a'ch sgiliau â'r rôl, yna gofynnwch i Ddeallusrwydd Artiffisial eich helpu i'w strwythuro gan ddefnyddio'r fformat STAR neu ffyrdd eraill o gryfhau'ch enghreifftiau
- gofynnwch i Ddeallusrwydd Artiffisial wirio bod eich atebion yn gryno ac argymell gwelliannau sy'n cadw eu hystyr

# Paratoi ar gyfer eich cyfweliad

## Defnydd derbyniol

Gallwch ddefnyddio adnoddau Deallusrwydd Artiffisial i wneud y canlynol:

- paratoi ar gyfer cyfweliadau, gan gynnwys cwestiynau ffug y gellid eu gofyn i chi
- ymchwilio i wybodaeth gyhoeddus am y Gwasanaeth Sifil a'r sefydliad rydych chi'n gwneud cais iddo
- darganfod gwybodaeth am dueddiadau mewn diwydiant neu broffesiwn y gallwch gysylltu â phrofiadau personol

## Defnydd annerbyniol

Peidiwch â defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i wneud y canlynol:

- gorliwio eich sgiliau a'ch profiadau neu greu rhai nad oes gennych chi
- creu atebion i gwestiynau a ofynnir i chi mewn cyfweliad byw neu wedi'i recordio ymlaen llaw
- creu atebion i gwestiynau sy'n seiliedig ar sefyllfa
- darparu gwybodaeth sensitif am eich sefydliad, megis unigolion neu fanylion personol, i adnodd Deallusrwydd Artiffisial

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad neu ganolfan asesu ar gyfer swydd yn y Gwasanaeth Sifil, gall Deallusrwydd Artiffisial eich helpu i baratoi ac ymarfer ymlaen llaw. Dyma rai enghreifftiau o ddefnydd effeithiol:

- gallech ofyn i Ddeallusrwydd Artiffisial ddarllen y disgrifiad swydd a chreu cwestiynau cyfweliad ffug i'ch helpu i baratoi ymatebion enghreifftiol yn seiliedig ar eich profiadau a'ch sgiliau
- gallech ofyn i Ddeallusrwydd Artiffisial gynhyrchu cwestiynau ymddygiad enghreifftiol fel y gallwch ymarfer sut rydych chi'n cyflwyno'ch ymatebion
- gallech gymharu'ch ymatebion i gwestiynau enghreifftiol gyda dulliau a argymhellir, a'u personoli
- gallech ofyn am awgrymiadau ar iaith y corff ac arddulliau cyfathrebu ar gyfer cyfweliadau, a'u hymarfer mewn sesiynau ffug

Mae'n bwysig deall hyn: er y gall Deallusrwydd Artiffisial eich helpu i baratoi ar gyfer cyfweliad, ni ddylid defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i gynhyrchu ymatebion yn ystod cyfweliad.

# Pam mae dilysrwydd yn bwysig

Dylai'ch cais a'ch cyfweliad roi darlun cywir a dilys i ni o'ch sgiliau a'ch profiadau. Mae'n hanfodol nad ydych chi'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn ystod unrhyw asesiadau byw ar unrhyw gam o'r broses ddethol. Mae hyn yn sicrhau proses ddethol deg i bob ymgeisydd lle rydyn ni'n asesu pawb ar sail teilyngdod.

Mae pob gwas sifil yn dilyn cod y Gwasanaeth Sifil ac rydyn ni'n chwilio am ymgeiswyr talentog sy'n cydymffurfio â'n gwerthoedd craidd. Mae dilysrwydd a gonestrwydd yn eich cais yn hanfodol er mwyn penderfynu a ydych chi'n addas ar gyfer y rôl.

Cyn i chi gyflwyno cais, byddwn yn gofyn i chi gadarnhau bod y wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn wir ac yn gywir. Bydd rhagor o fanylion am hyn yn cael eu darparu yn y ffurflen gais ac mae'n bosib y byddwn yn gwrthod ceisiadau lle mae Deallusrwydd Artiffisial wedi ei defnyddio'n amhriodol ar unrhyw gam o'r broses.